**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Sue Evans
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru

30 Ionawr 2023

Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical

Annwyl Sue,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Nod ein gwaith yw nodi'r meysydd â blaenoriaeth lle y mae angen newid polisi er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau'r plant a'r bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal mewn modd diogel
- Mewn gofal: Gwasanaethau o safon a chefnogaeth i blant mewn gofal
- Ar ôl gofal: Cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

Rydym wrthi'n casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid i lywio ein gwaith sy'n edrych ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal".

Rydym eisoes wedi cyfarfod â nifer fawr o unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system: rhieni geni, plant sy'n rhan o'r system ofal ar hyn o bryd a phobl ifanc sydd wedi gadael y system.

Nodwn sefyllfa unigryw Gofal Cymdeithasol Cymru fel y rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol. Rydym wedi cael ein synnu gan rai materion sylweddol y soniwyd wrthym ni amdanynt eisoes ynglŷn â'r gweithlu a byddem yn croesawu eich ymateb i'r pwyntiau a godir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Felly, rydym yn awyddus i farn Gofal Cymdeithasol Cymru lywio ein gwaith craffu sydd ar fin dechrau gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'r Dirprwy Weinidog. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gyflwyno ymateb i'r pwyntiau a godir yn yr atodiad i'r llythyr hwn erbyn 24 Chwefror 2023 fan bellaf.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r terfyn amser hwn fod yn heriol. Os oes gennych unrhyw bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor (**SeneddPlant@Senedd.Cymru**).

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am yr wybodaeth a ganlyn sy'n nodi barn Gofal Cymdeithasol Cymru ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennych ar gyfer Cymru gyfan.

- **Pwysau ar y gweithlu:** Maint y llwythau gwaith a'r pwysau sydd ar staff yng ngwasanaethau plant yr awdurdodau lleol ac effaith hynny ar gyfer y tair agwedd ar ein hymchwiliad.
- **Cadw'r un gweithwyr achos a throsiant staff**: Effaith newid gweithwyr achos ar ansawdd asesiadau a gofal.
- **Cyfraddau swyddi gwag**: Nifer y swyddi sy'n wag ar hyn o bryd a'r effaith ar dair agwedd ein hymchwiliad.
- **Staff asiantaeth ym maes Gwaith Cymdeithasol**: Faint o staff asiantaeth sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant ac effaith hynny.
- **Y gweithlu gofal preswyl**: Sefydlogrwydd y gweithlu.
- **Hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus** fel y maent yn berthnasol i dair agwedd ein hymchwiliad.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i'n hymchwiliad yr hoffech dynnu ein sylw atynt.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb ym mhapur briffio ystadegol Ymchwil y Senedd ar blant sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, a baratowyd i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae'n defnyddio rhywfaint o wybodaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar dudalennau 22-24.